

Adeiladu Cuddfan

Cynllun Dysgu Awyr Agored

Arweinydd y Sesiwn:		Nifer y plant: 15 - 60		Ystod oedran: CA2 - 4	
Lleoliad: E.e. Tiroedd Ysgol, Parc, Coetir, Traeth		Adnoddau: cyfarwyddiadau gêm neu stori deunyddiau adeiladu cuddfan e.e. ffyn, darnau rhydd, tarpolinau, rhaff		Meini Prawf Llwyddiant: Bydd pawb yn cymryd rhan mewn adeiladu cuddfan. Bydd pawb yn ystyried sut mae'r Ddaear yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen arnom.	
Pwnc: Adeiladu Cuddfan		Amcan Dysgu (Sail Resymegol): Datblygu dealltwriaeth o sut mae gwahanol bobl ac anifeiliaid yn byw, a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gynnal eu bywydau.		Geiriau pwysig: Deunyddiau, Adnoddau, Cynaliadwy, Pobl wedi ' u Dadleoli	
Amser: O leiaf 90 mun Os oes mwy o amser ar gael - defnyddiwch yr amser ar gyfer yr amser creadigol/adeiladu cuddfannau		Nod y sesiwn a sut mae'n cysylltu â dysgu am Newid yn yr Hinsawdd: Mae deall pa mor brin ydy adnoddau'r byd a sut rydym yn eu defnyddio i gynnal ein ffordd o fyw yn ein helpu i ddewis ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw ac adeiladu. Y potensial i gyflwyno'r syniad o ffoaduriaid hinsawdd.			
5 mun	Cylch	Briff ffiniau a diogelwch	Diffiniwch ffiniau'r sesiwn, unrhyw goed meirw, ardaloedd na ellir mynd iddynt.		

<p>5 mun</p>		<p>Gêm boethi</p>	<p>'Ble mae pawb yn byw?' ... gêm eiriau a gweithgareddau yn seiliedig ar fathau o dai a chartrefi, e.e. tŷ, fflat, pabell, cwch gwenyn, cuddfan, twll, cwt, ysgubor, nyth, cragen ac ati. Defnyddiwch y rhestr sydd wedi'i hatodi, neu lluniwch restr eich hun, a pharwch y cartref â'r creadur trwy eich sgiliau actio. Dosbarthwch fathau o gartrefi i hanner y plant, a gofynnwch iddyn nhw sefyll mewn gofod. Mae angen iddyn nhw geisio dangos pa fath o gartref ydyn nhw, heb siarad.</p> <p>Rhowch fathau o greaduriaid allan i hanner arall y plant. Mae angen iddynt ddod o hyd i'w 'cartref' a sefyll wrth ei ymyl. Mae creaduriaid yn gallu helpu ei gilydd (yn enwedig y bobl a fydd yn gweld hyn yn hawdd!)</p> <p>NEU</p> <p>gêm/cân arall sy'n gysylltiedig â chartrefi – fel – 'Mae Ffermwyr eisiau gwraig.'</p>
<p>10 mun</p>	<p>Cylch</p>	<p>Trafodwch yr Amcan Dysgu a rhannwch wybodaeth</p>	<p>Dywedwch stori – e.e. gecko's tale, 3 pigs (gallant ei actio neu ddweud un frawddeg yr un wrth fynd o amgylch y cylch os ydych chi'n ei hadnabod yn barod, neu ddefnyddio pypedau neu lyfr - beth bynnag sy'n gweithio!)</p>

<p>10 mun</p>	<p>Cylch NEU - cwestiyna u gwahanol i 4 grŵp</p>	<p>Gweithgaredd i ddatblygu/cyfnert hu gwybodaeth, e.e. dod o hyd i eitemau cudd, casglu neu sylwi ar rywbeth yn yr ardal</p>	<p>Trafodaeth: Ydy hi'n bwysig cael rhywle i fyw? Sut deimlad yw cysgu tu allan? Sut deimlad yw cael eich dadleoli? Allwch chi feddwl am unrhyw resymau pam y gallai fod angen i bobl/anifeiliaid symud? Beth ydych chi 'n meddwl yw person sydd wedi'i ddadleoli? Pa ddeunyddiau sydd eu hangen i adeiladu cartref? Eich tŷ chi - tŷ anifail, tŷ mewn coeden ac ati. O ble y daw' r adnoddau hyn? Beth os aiff rhywbeth o'i le? Ydy eich cartref yn hawdd i'w drwsio? Pa fath o gartrefi sydd fwyaf hawdd i ofalu amdanynt? Pam rydyn ni'n adeiladu yn y ffordd rydyn ni'n adeiladu?</p>
			<p><i>Edrychwch ar y rhan opsiynol isod ar gyfer grŵp hŷn, sy'n cysylltu â'r cymwysterau TGAU Daearyddiaeth a Bagloriaeth Cymru.</i></p>
<p>5 mun</p>	<p>Cylch</p>	<p>Rhannwch y darganfyddiadau yn gryno Cyflwynwch weithgaredd creadigol</p>	<p>Adborth gan grwpiau os oes angen Nodyn i'ch atgoffa sut i gario ffyn, a bod gweithio fel tîm yn rhan o adeiladu cuddfan.</p>
<p>30 mun</p>	<p>Grwpiau</p>	<p>Crëwch Weithgaredd</p>	<p>Adeiladu cuddfan – cyfyngwch ar adnoddau fel llinyn/tarpolinau ac ati, NEU rhowch setiau gwahanol o adnoddau i wahanol grwpiau</p>

<p>5 mun</p>	<p>Fel 1 neu 2 grŵp</p>	<p>Adborth o weithgaredd Creadigol - cyflwyniad gan blant</p>	<p>Mae hanner y grŵp yn mynd i weld cuddfan yr hanner arall, yna'n newid drosodd.</p>
<p>10 mun</p>	<p>Fel 1 grŵp</p>	<p>Gêm - i weddu'r hwyliau / grŵp</p>	<p>Rhyddid i chwarae yn y cuddfannau os gofynnir am hynny</p> <p>NEU</p> <p>Cuddiwch Mae'r holl blant yn sefyll mewn llinell y tu ôl i'r athro. Mae'r athrawes yn creu stori gyda llawer o seiniau 'c' ynddi. Pan mae hi'n dweud 'cuddiwch', mae gan y plant 5 eiliad i guddio, tra bod yr athrawes yn cyfrif yn araf i 5. Yna, mae hi'n troi rownd yn y fan a'r lle ac ni all symud oddi ar y man hwn. Mae'n galw enwau unrhyw blant mae'n gallu eu gweld. Dylech gymryd tro i fod yn athrawon. D.s. cytunwch ar eich ffiniau ac ar beth y byddwch yn ei alw i gael y plant yn ôl yn gyflym. Mae rhai yn dda iawn am fynd yn bell i ffwrdd mewn 5 eiliad.</p> <p>NEU</p> <p>Gwenyn Suo Gwenyn suo (Gêm lle mae'r plant yn hedfan o gwmpas fel gwenyn, gyda'r athrawes yn ailadrodd 'gwenyn suo', 'gwenyn suo', 'gwenyn suo'- nes iddi ddweud 'rhewi' ac yna, rhoi llythyren</p>

			<p>neu categori i blant sydd ddim mor hyderus gyda'u sillafu e.e. ' rhewi... C ' neu ' rhewi... anifeiliaid coedwig law.</p> <p>Mae'n rhaid i'r plant droi yn rhywbeth sy'n dechrau gydag ' C ', a rhewi. Mae'r athrawes yn trio dyfalu beth ydy pob un ohonyn nhw'n gyflym, yna'n dechrau gyda ' Gwenyn Suo ' eto. Categoriâu posibl - anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, pryfed, rhywbeth sy'n gallu nofio, rhywbeth sy'n gallu hedfan, ffordd o deithio/trafnidiaeth, llysiâu gwyrdd, ffrwyth, cymeriad o stori, rhywun yn gweithio yn yr awyr agored ac ati.</p>
10 mun	Cylch	Adolygwch y dysgu, adlewyrchwch ar brofiad	<p>Nodyn atgoffa o sgwrs gynharach - pa mor gynaliadwy yw eich cuddfannau? Ydy'n bosibl eu hailadeiladu nhw'n hawdd? Pa adnoddau oedd hawsaf i ddod o hyd iddynt? Pa rai sydd anoddaf? Oeddech chi'n gorfod trafod gydag eraill i gael yr adnoddau oedd eu hangen arnoch?</p> <p>Ewch o amgylch y cylch a gofynnwch i bob person roi eu hawgrym gorau ar sut i adeiladu cuddfan.</p>

Dewisol	Cylch	<p>Datblygwch y drafodaeth ar gyfer grŵp hyn neu i gysylltu â gwaith yn yr ystafell ddosbarth.</p>	<p>Opsiynau yma: trafod y manteision o ddefnyddio defnyddiau cynaliadwy a dal a storio carbon os ydych chi'n defnyddio defnyddiau a dyfwyd mewn tai. Gallai hyn ffurfio rhan o Her Dinasyddiaeth Fyd-eang ar gyfer Bagloriaeth Cymru.</p> <p>Cysylltu â chymhwyster TGAU Daearyddiaeth CBAC Trafodaeth ynghylch sut mae gweithgarwch dynol yn effeithio ar ecosystemau, fel coedwig law drofannol. Mae hyn yn cysylltu â chymhwyster TGAU Daearyddiaeth CBAC Thema Graidd 2: Materion Amgylcheddol a Datblygu. Yn benodol 'Sut y mae ecosystemau yn darparu gwasanaethau pwysig i bobl (er enghraifft, rheoleiddio cylchoedd dŵr a lliniaru llifogydd).' 'Sut y gall gweithgarwch dynol, i gynnwys cynhyrchu bwyd, effeithio ar raddfeydd amrywiol, ar ecosystem coedwigoedd glaw trofannol' a 'Strategaethau amgylcheddol cynaliadwy i reoli cynefinoedd a bioamrywiaeth mewn coedwigoedd glaw trofannol'.</p> <p>Ystyried sut mae pobl wedi dod o hyd ac yn dal angen dod o hyd i ffyrdd o weithio gyda'i gilydd i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael heb eu gorymestyn. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y gweithgareddau ymarferol lle bydd grwpiau'n cael rhywfaint o adnoddau i adeiladu eu cuddfannau. Gallech roi symiau gwahanol o</p>
---------	-------	---	--

Maint Cymru

Cyfnod Allweddol Dau, Tri, Pedwar



			ddeunyddiau i wahanol grwpiau hefyd, i ddangos sut mae anghydraddoldebau byd-eang yn effeithio ar ddatblygiad. Gallai hyn fod yn ffordd o arwain i mewn i Thema Graidd 6: Materion Datblygu ac Adnoddau.
--	--	--	--

Parau posibl ar gyfer gêm mathau o gartrefi - ond dwi'n siŵr y gallwch chi feddwl am fwy!

tŷ - person

fflat - person

tent - person

cwch gwenyn - gwenyn

cuddfan - llwynog

twll- cwningen

cwt bochdew - bochdew

ysgubor - ceffyl

nyth - aderyn

cragen - cranc

cwt ci - ci

boncyff - pryf lludw

pwll - chwyaden

llwyn - mwnci

nyth gwiwer - gwiwer

gwe pry'cop - pry'cop